

# Cefnogi'r rhai sy'n ein Gwasanaethu

Maniffesto Cymru 2026

**rbl.org.uk**

ROYAL BRITISH LEGION

# Rhagair
## Lynda Atkins

"Mae ein cymuned Lluoedd arfog yn gwneud aberthau aruthrol i amddiffyn y Deyrnas Unedig a'r rhyddidau rydyn ni oll yn eu mwynhau. Yng Nghymru, a ledled gweddill y DU, maen nhw'n haeddu ein cydnabyddiaeth a'n diogelwch, ond hefyd cymorth ystyrlon, parhaus sy'n adlewyrchu dyfnder eu gwasanaeth."



Ers dros ganrif, mae'r Lleng Brydeinig Frenhinol wedi hyrwyddo cymuned y Lluoedd Arfog. Rydym yn credu yn egwyddorion Cyfamod y Lluoedd Arfog; na ddylai neb wynebu anfantais oherwydd eu gwasanaeth, a bod ystyriaeth arbennig yn briodol i'r rhai sydd wedi rhoi fwyaf, ac rydym yn credu bod yn rhaid gwneud y rhain yn realiti ym mywyd beunyddiol ar draws holl genhedloedd y DU.

Mae gan Cymru dreftadaeth filwrol falch a phresenoldeb amrywiol yng nghymuned y Lluoedd Arfog. Eto i gyd, fel y mae'r maniffesto hwn yn ei ddangos, nid yw addewid y Cyfamod yn cael ei gyflawni'n llawn. Mae symudiad Llywodraeth y DU i ehangu Dyletswydd y Cyfamod i bob adran yn ogystal â'r Cenhedloedd Datganoledig yn gam mawr ymlaen. Mae'n cynnig cyfle i Lywodraeth Cymru arwain wrth osod safon genedlaethol gyson.

Mae'r maniffesto hwn yn cynnig argymhellion ymarferol a fyddai'n galluogi Cymru i fod yn fodel arfer gorau, gan sicrhau triniaeth deg i gymuned y Lluoedd Arfog. Edrychwn ymlaen at weithio gydag ymgeiswyr a phleidiau a fydd yn ffurfio Llywodraeth nesaf Cymru i droi'r cynigion hyn yn realiti, gan sicrhau bod gwasanaeth ac aberth yn cael eu hateb â'r parch a'r gefnogaeth y maent yn eu haeddu.

Cofion cynnes,

**Lynda Atkins**
Cadeirydd Cenedlaethol Y Lleng Brydeinig Frenhinol

# Cyflwyniad

Mae'r maniffesto hwn yn ganlyniad ymgysylltu â chymuned y Lluoedd Arfog yng Nghymru, dadansoddiad o'r data diweddaraf, ac asesiad o'r polisi presennol. Mae'n nodi nifer o feysydd allweddol lle bydd ymyrraeth gan Lywodraeth Cymru yn cael yr effaith fwyaf ar fywydau cymuned y Lluoedd Arfog.

Mae'r Lleng Brydeinig Frenhinol yng Nghymru wedi ymrwymo i gydweithio i roi ein hargymhellion ar waith. Rydym yn cyflwyno'r ddogfen hon fel ein cyfraniad at nod gyffredin: adeiladu Cymru sy'n wirioneddol anrhydeddu ei chymuned Lluoedd Arfog.



© Y Lleng Brydeinig Frenhinol

# Ein hargymhellion

## Mae RBL yn argymell bod yn rhaid i Lywodraeth Cymru:

ARMED FORCES COVENANT

### Gryfhau Cyfamod y Lluoedd Arfog yng Nghymru:

- Cyfeirio at egwyddorion Cyfamod y Lluoedd Arfog, a goblygiadau polisi mewn perthynas â nhw, ar draws strategaethau, canllawiau a thempledi adrodd ar draws Llywodraeth Cymru. Mae hyn yn cynnwys Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, Cynlluniau Llesiant awdurdodau lleol, ac asesiadau Cydraddoldeb ac Effaith a gynhelir ar draws gwasanaethau statudol yng Nghymru.

- Gweithredu rhaglen hygyrch, bwrpasol o weithgarwch hyrwyddo i gefnogi Cyfamod y Lluoedd Arfog. Er mwyn sicrhau bod y Ddyletswydd Cyfamod estynedig yn cael ei gweithredu i'w heffaith lawn, rhaid i lywodraeth Cymru gymhwyso adnoddau, canllawiau a mecanweithiau gwerthuso cadarn priodol i fesur effaith ar draws pob maes polisi a gwasanaeth cyhoeddus perthnasol.

### Gwella Mynediad at ofal iechyd wedi'i deilwra:

- Sefydlu mecanweithiau adnabod ffurfiol o fewn systemau deintyddol y GIG drwy ei wneud yn ofynnol i bob corff cyhoeddus ofyn i unigolion a ydyn nhw neu aelod o'u teulu wedi gwasanaethu yn Lluoedd Arfog y DU, gyda data'n cael eu cofnodi a'u cyhoeddi, er mwyn deall anghenion a darparu cefnogaeth briodol.


- Creu baneri cofrestru deintyddol ar gyfer plant y Lluoedd Arfog (plant Milwyr Rheolaidd sy'n gwasanaethu ar hyn o bryd), gan alluogi Byrddau Iechyd i gynnig lleoliad blaenoriaeth lle mae capasiti yn caniatáu hynny, a chan hwyluso profiadau iechyd a gofal prydlon ac integredig.

- Caniatáu mynediad dros dro i Wasanaethau Deintyddol Cymunedol ar gyfer Plant y Lluoedd Arfog pan nad oes deintydd GIG ar gael o fewn 8 wythnos i adleoli, gan sicrhau llwybrau triniaeth cydlynol sy'n mynd i'r afael â phob angen deintyddol.

- Sicrhau bod dyletswyddau Cyfamod y Lluoedd Arfog wedi'u hymgorffori yn nhelerau contractau deintyddol a chanllawiau comisiynu drwy fframwaith contract newydd GDS, gyda mecanweithiau i ddwyn cyrff cyhoeddus i gyfrif am fodloni rhwymedigaethau'r Cyfamod.

- Hyrwyddo cyfranogiad yn y Cynllun Achredu Meddygon Teulu sy'n Gyfeillgar i Gyn-filwyr yn weithredol ledled lleoliadau gofal iechyd yng Nghymru i wella cyfranogiad a chysondeb.

- Cyflwyno rhaglen hyfforddi genedlaethol ar gyfer holl staff rheng flaen y GIG yng Nghymru i nodi a chefnogi cleifion o gefndiroedd yn y Lluoedd Arfog, gan gynnwys personél sy'n Gwasanaethu, eu teuluoedd a'r gymuned mewn profedigaeth.



© Y Lleng Brydeinig Frenhinol

## Trin Iawndal Milwrol yn Deg:



© Y Lleng Brydeinig Frenhinol

- Sicrhau bod unrhyw brawf modd statudol datganoledig ar gyfer budd-daliadau lles yn anwybyddu iawndal milwrol yn llwyr.
- Adolygu a diwygio canllawiau statudol i sicrhau bod polisïau profi modd awdurdodau lleol yng Nghymru yn anwybyddu taliadau iawndal milwrol yn llwyr ar gyfer budd-daliadau a weinyddir yn lleol.

## Adnabod Plant y Lluoedd Arfog:

- Arddangos ei ymrwymiad i blant y Lluoedd Arfog drwy ychwanegu maes at y Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (PLASC) i alluogi eu hadnabod. Adnabod plant y Lluoedd Arfog yw'r conglfaen wrth liniaru'r heriau unigryw sy'n gysylltiedig â ffordd o fyw y Lluoedd Arfog, megis symudedd uchel a chyfnodau hir heb eu rhiant sy'n gwasanaethu.

## Cymuned y Lluoedd Arfog yng Nghymru

Mae tua

**115,331**


o gyn-filwyr yng Nghymru



Mae hyn yn cynrychioli 4.5% o'r rhai 16 oed a hŷn.
O'r rhain, roedd 76.3% wedi gwasanaethu yn y Lluoedd Rheolaidd, 19.3% yn y Lluoedd wrth Gefn, a 4.5% wedi gwasanaethu yn y ddau.

Ffynhonnell: Cyfrifiad 2021.

Yng Nghymru, yr awdurdodau lleol gyda'r gyfran uchaf o gyn-filwyr oedd:



Conwy 5.9%,
Sir Benfro 5.7%,
Ynys Môn 5.6%.

Ffynhonnell: Cyfrifiad 2021.

Mae 1,870 o bersonél Rheolaidd sy'n gwasanaethu sy'n byw yng Nghymru.



Ffynhonnell: Ystadegau Lleoliad Blynyddol 2025.

Mae 49.8% o'r cyn-filwyr yng Nghymru yn 64 oed a'n ifancach.

Ffynhonnell: Cyfrifiad 2021.

Roedd 13.8% o'r cyn-filwyr sy'n byw yng Nghymru yn fenywaidd.

Ffynhonnell: Cyfrifiad 2021.

Roedd 56.2% o'r cyn-filwyr sy'n byw yng Nghymru yn briod neu mewn partneriaeth sifil.



Ffynhonnell: Cyfrifiad 2021.

Adroddodd 90.4% o'r cyn-filwyr sy'n byw yng Nghymru cyfeiriadedd rhywiol Heterorywiol neu Syth.

Ffynhonnell: Cyfrifiad 2021.

Roedd 17.2% o gyn-filwyr yng Nghymru yn byw mewn aelwyd gyda phlant dibynnol. Roedd cyfanswm o 49,270 o blant a llysblant yn byw yn yr un aelwyd â chyn-filwr: Dosbarthwyd 58.1% o'r rhain fel rhai dibynnol.

Ffynhonnell: Cyfrifiad 2021.



© Y Lleng Brydeinig Frenhinol

## Cryfhau Cyfamod y Lluoedd Arfog yng Nghymru

Cyflwynwyd Cyfamod y Lluoedd Arfog[1] fel rhan o Ddeddf y Lluoedd Arfog 2011 ar ôl ymgyrch lwyddiannus dan arweiniad y Lleng Brydeinig Frenhinol a Poppyscotland. Mae'r Cyfamod yn amlinellu rhwymedigaeth y genedl na ddylai aelodau'r Lluoedd Arfog, cyn-filwyr, a'u teuluoedd wynebu unrhyw anfantais oherwydd eu gwasanaeth, ac mae'n darparu ystyriaeth arbennig mewn amgylchiadau penodol, er enghraifft ar gyfer y rhai sydd wedi cael eu hanafu neu sydd mewn profedigaeth.

Cyflwynodd Deddf y Lluoedd Arfog 2021 ('Dyletswydd [y Cyfamod]') ddyletswydd gyfreithiol i sefydliadau penodol roi "sylw dyledus" i addewid y Cyfamod, sy'n golygu bod yn rhaid iddynt ystyried egwyddorion y Cyfamod yn ymwybodol. Mae'r Ddyletswydd hon yn berthnasol i gyrff sy'n gyfrifol am ofal iechyd, addysg, a thai lleol, er enghraifft awdurdodau lleol a chyrff y GIG. Fodd bynnag, mae'r Ddyletswydd yn eithrio'n nodedig adrannau'r llywodraeth ganolog neu ddatganoledig a meysydd polisi eraill.



© Y Lleng Brydeinig Frenhinol

Yn dilyn addewid maniffesto 2024 i roi "Cyfamod y Lluoedd Arfog yn y gyfraith yn llawn", mae'r Llywodraeth wedi cyflwyno deddfwriaeth i ymestyn Dyletswydd y Cyfamod. Mae hyn yn ceisio mynd i'r afael â chyfyngiadau Deddf 2021 trwy wneud y ddyletswydd 'sylw dyledus' yn gyfreithiol rwymol ar bob adran o'r llywodraeth ganolog am y tro cyntaf. Bydd y Ddyletswydd hefyd yn cael ei hymestyn i'r llywodraethau datganoledig yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Nod yr estyniad yw sicrhau dull cyson ledled y DU o gefnogi cymuned y Lluoedd Arfog.

Er bod pob awdurdod lleol yng Nghymru wedi llofnodi Cyfamod y Lluoedd Arfog, mae ei weithrediad yn parhau i fod yn anghyson. Nid yw hyn oherwydd cyfrifoldebau cyfreithiol amrywiol, sy'n unffurf o dan y Ddyletswydd Cyfamod, ond yn hytrach natur amwys y cymal 'sylw dyledus', blaenoriaethau lleol gwahanol, a heriau mewn cydlynu traws-sector. Mae cyflawniad ymarferol y Cyfamod yn cael ei yrru'n bennaf gan Lywodraeth Cymru, Swyddogion Cyswllt Lluoedd Arfog rhanbarthol, Comisiynydd Cyn-filwyr Cymru, a rhwydweithiau cymorth helaeth yn y trydydd sector.

Ar hyn o bryd, dealltwriaeth gyfyngedig sydd o Gyfamod y Lluoedd Arfog. Canfu arolwg ym mis Awst 2025, wedi'i gynnal gan YouGov ar ran RBL, nad oedd 67% o bobl yn y DU erioed wedi clywed am Gyfamod y Lluoedd Arfog, a dim ond 15% oedd wedi clywed amdano ac oedd yn gwybod amdano[2]. Nododd Arolwg Agwedd Parhaus y Lluoedd Arfog (AFCAS) 2025 nad oedd mwy na chwarter (27%) o bersonél erioed wedi clywed am Gyfamod y Lluoedd Arfog, gyda Swyddogion gryn dipyn yn fwy tebygol o wybod o leiaf ychydig amdano o'i gymharu â Rhengoedd Eraill (84% yn erbyn 45% yn y drefn honno).[3]

Mae aelodau cymuned y Lluoedd Arfog yng Nghymru yn cyrchu gwasanaethau cyhoeddus drwy gymysgedd o gyrff cenedlaethol, datganoledig, rhanbarthol, a lleol. Mae RBL yn haeru y bydd cyflwyno Dyletswydd gyffredin ar draws pob lefel o Lywodraeth y DU a Llywodraeth Ddatganoledig yn helpu i sicrhau cysondeb ac eglurder yn yr ymrwymiadau y gall cymuned y Lluoedd Arfog eu disgwyl. Yng Nghymru, bydd y Ddyletswydd hon yn ategu strategaethau datganoledig presennol ac yn cryfhau cyflwyniad gwasanaethau drwy ymgorffori egwyddorion y Cyfamod ar draws pob haen o ddarpariaeth gwasanaethau cyhoeddus.

Er mai'r Weinyddiaeth Amddiffyn (MOD) bydd yn arwain ehangiad Cyfamod y Lluoedd Arfog, rhaid i Lywodraeth Cymru adeiladu ar ei chefnogaeth i gymuned y Lluoedd Arfog. Drwy sicrhau bod polisi a chanllawiau yn parhau i adlewyrchu anghenion unigryw'r gymuned hon, a thrwy alinio ag egwyddorion y Cyfamod, gall Llywodraeth Cymru wella ei strategaethau a'i chynlluniau presennol. Bydd hyn yn helpu i gyflwyno dull mwy cynhwysfawr a chyson ledled y DU, lle mae gwasanaethau'n cael eu cynllunio, eu cyflwyno a'u hadolygu gyda chymuned y Lluoedd Arfog mewn golwg.

### Mae RBL yn argymell bod yn rhaid i Lywodraeth Cymru:

- Cyfeirio at egwyddorion Cyfamod y Lluoedd Arfog, a goblygiadau polisi mewn perthynas â nhw, ar draws strategaethau, canllawiau a thempledi adrodd ar draws Llywodraeth Cymru. Mae hyn yn cynnwys Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, Cynlluniau Llesiant awdurdodau lleol, ac asesiadau Cydraddoldeb ac Effaith a gynhelir ar draws gwasanaethau statudol yng Nghymru.
- Gweithredu rhaglen bwrpasol o weithgarwch hyrwyddo ar Gyfamod y Lluoedd Arfog a Dyletswydd y Cyfamod ledled Cymru.
- Neilltuo cyllid priodol a chynaliadwy i sicrhau bod Llywodraeth Cymru, a gwasanaethau statudol, yn gallu gweithredu Dyletswydd y Cyfamod yn effeithiol, wedi'i ategu gan hyfforddiant cyson a mecanweithiau gwerthuso effaith cadarn.

1. Y Weinyddiaeth Amddiffyn (2011), Cyfamod y Lluoedd Arfog, ar gael yn: **the_armed_forces covenant.pdf**
2. Cyfanswm maint y sampl oedd 2,169 oedolyn. Cynhaliwyd yr arolwg ar-lein rhwng 16–23 Awst 2025. Mae ffigurau wedi'u pwysoli ac yn cynrychioli holl oedolion y DU (18+ oed).
3. Y Weinyddiaeth Amddiffyn (2025), Canlyniadau Arolwg Agwedd Parhaus Lluoedd Arfog Rheolaidd y DU 2025, ar gael yn: **UK Regular Armed Forces Continuous Attitude Survey Results 2025**

## Iechyd a lles: Gwella mynediad at ofal iechyd i gymuned y Lluoedd Arfog



© Y Lleng Brydeinig Frenhinol

### Mynediad at ddeintyddiaeth i blant y Lluoedd Arfog

Mae personél y Lluoedd Arfog sy'n gwasanaethu yn derbyn gofal deintyddol drwy Defence Medical Services (DMS), ond mae angen i'w teuluoedd gael mynediad at wasanaethau deintyddol y GIG ar gyfer eu gofal. Yn wahanol i wasanaethau meddyg teulu, nid oes codau cleifion safonol na "baneri" i adnabod plant personél sy'n gwasanaethu o fewn systemau deintyddol. Er bod plant personél y lluoedd arfog yn gymwys i gael gofal deintyddol am ddim gan y GIG yng Nghymru, nid oes gan y system unrhyw fecanwaith ffurfiol i'w hadnabod na lliniaru'r anfanteision a achosir gan symudedd uwch na'u cyfoedion sifil.

Mae Cyfamod y Lluoedd Arfog yn gosod dyletswydd ar Fyrddau Iechyd i sicrhau nad yw teuluoedd y Lluoedd Arfog yn wynebu "unrhyw anfantais." nid yw'r egwyddor hon yn ymestyn yn awtomatig i'r practisau deintyddol unigol a gomisiynir i ddarparu gofal y GIG oni bai ei fod wedi'i ysgrifennu'n benodol yn eu contractau.

Datgelodd Arolwg Agwedd Parhaus Teuluoedd y Tri Gwasanaeth (FAMCAS) 2025 fod teuluoedd yng Nghymru yn fwy tebygol na'r rhai mewn unrhyw wlad arall y DU o nodi nad oeddent yn gallu cael mynediad at driniaeth ddeintyddol.

### Mae heriau allweddol yn cynnwys:

- Adleoli rheolaidd rhwng penodiadau yn creu bylchau mewn parhad gofal.
- Rhestrau aros hir ar gyfer gwasanaethau deintyddol y GIG heb lwybrau blaenoriaeth i deuluoedd milwrol.
- Plant yn cael trafferth cael mynediad at ofal deintyddol rheolaidd, gan golli allan ar driniaeth ataliol hanfodol.
- Mae'n bosib y bydd yn rhaid i deuluoedd geisio gofal preifat oherwydd rhwystrau mynediad i'r GIG.
- Costau teithio sylweddol i deuluoedd pan gollir parhad rhwng penodiadau.

Bydd y diwygiadau contract Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol (GDS) 2026 sydd ar ddod yn golygu bod teuluoedd y Lluoedd Arfog yn wynebu anfantais sylweddol drwy system newydd y Porth Mynediad Deintyddol (DAP).

Y DAP bydd yr unig fecanwaith i gleifion newydd gael mynediad at ofal deintyddol rheolaidd y GIG, gyda byrddau iechyd yn dyrannu cleifion o giw wrth i apwyntiadau ddod ar gael. Bob tro y bydd teulu milwrol yn symud o fewn Cymru oherwydd gofynion gwasanaeth, byddent yn ailymuno â'r system fel "cleifion newydd" ac yn ymuno â chefn y ciw, gan golli unrhyw barhad gofal a sefydlwyd ganddynt yn flaenorol. Mae hyn yn creu cylch o amhariadau lle mae symudiadau mynych sy'n gysylltiedig â gwasanaeth yn golygu bod teuluoedd y lluoedd arfog yn colli eu lle yn y system gofal deintyddol dro ar ôl tro.

Yn nodedig, nid yw teuluoedd y Lluoedd Arfog yn cael eu crybwyll yn unman yn yr Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb, ac nid oes unrhyw ddarpariaethau ar gyfer mynediad blaenoriaethol nac eithriadau i'r rhai sy'n symud yn aml oherwydd cyflogaeth wedi'u cynnwys yn y diwygiadau arfaethedig.

### Mae RBL yn argymell bod yn rhaid i Lywodraeth Cymru:

- Sefydlu mecanweithiau adnabod ffurfiol o fewn systemau deintyddol y GIG drwy ei wneud yn ofynnol i bob corff cyhoeddus ofyn i unigolion a ydyn nhw neu aelod o'u teulu wedi gwasanaethu yn Lluoedd Arfog y DU, gyda data'n cael eu cofnodi a'u cyhoeddi i ddeall anghenion a darparu cefnogaeth briodol.

- Creu baneri cofrestru deintyddol ar gyfer plant y Lluoedd Arfog, gan alluogi Byrddau Iechyd i gynnig lleoliad blaenoriaeth lle mae capasiti yn caniatáu hynny a hwyluso profiadau iechyd a gofal prydlon ac integredig i deuluoedd.

- Caniatáu mynediad dros dro i Wasanaethau Deintyddol Cymunedol ar gyfer plant milwrol pan nad oes deintydd GIG ar gael o fewn 8 wythnos i adleoli, gan sicrhau llwybrau triniaeth cydlynol.

- Sicrhau bod dyletswyddau Cyfamod y Lluoedd Arfog wedi'u hymgorffori yn nhelerau contractau deintyddol a chanllawiau comisiynu drwy fframwaith contract newydd GDS, gyda mecanweithiau i ddwyn cyrff cyhoeddus i gyfrif am fodloni rhwymedigaethau'r Cyfamod.

## Cynllun Achredu Meddygon Teulu sy'n Gyfeillgar i Gyn-filwyr

Nod y Cynllun Achredu Meddygon Teulu sy'n Gyfeillgar i Gyn-filwyr, a lansiwyd ym mis Tachwedd 2023, yw gwella adnabod a chefnogaeth i gyn-filwyr o fewn gofal sylfaenol. Mae'r rhaglen yn galluogi meddygfeydd teulu i gofrestru ac ymgymryd â hyfforddiant arbenigol ar iechyd a lles cyn-filwyr, yn ogystal â gwella ymwybyddiaeth am Gyfamod y Lluoedd Arfog ac anghenion cymuned ehangach y Lluoedd Arfog.[4]

Bydd meddygfeydd teulu sy'n ymuno â'r rhaglen yn gofyn i gleifion newydd yn rheolaidd a ydyn nhw, neu aelod o'u teulu, wedi gwasanaethu neu'n gwasanaethu ar hyn o bryd yn y Lluoedd Arfog. Bydd gofyn i feddygfeydd hefyd aros yn gyfredol â hyfforddiant a chanllawiau ar iechyd cyn-filwyr, ac anghenion cymuned ehangach y Lluoedd Arfog, er mwyn cynnal cynnig cymorth wedi'i deilwra ac sy'n seiliedig ar dystiolaeth.[5]

Fodd bynnag, ledled Cymru, mae derbyniad o'r cynllun hwn yn parhau i fod yn wirfoddol ac mae wedi bod yn anghyson ar draws meddygfeydd. Mae'r data diweddaraf sydd ar gael gan Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) yn dangos, o'r 374 o bractisau meddygon teulu cofrestredig yng Nghymru[6], bod 63 wedi'u hachredu fel rhai sy'n Gyfeillgar i Gyn-filwyr ers i'r cynllun gael ei lansio yn 2023[7]. Mae'r derbyniad isel hwn yn rhwystr sylweddol i effeithiolrwydd y cynllun. Mae mwy o ymwybyddiaeth a hyrwyddo'r cynllun cyfeillgar i gyn-filwyr yn hanfodol er mwyn sicrhau safonau cyson o gefnogaeth i gymuned y Lluoedd Arfog ledled Cymru.

Nid yw llawer o gyn-filwyr yn cael eu codio'n gywir mewn systemau meddygon teulu, sy'n cyfyngu ar eu mynediad at ofal priodol ac yn cyfyngu ar gasglu data priodol sy'n hanfodol ar gyfer cynllunio gwasanaethau. Mae adnabod cyn-filwyr yn gywir mewn cofnodion meddygon teulu yn hanfodol i sicrhau eu bod yn derbyn y gofal y mae ganddynt hawl iddo ac i alluogi gwell cynllunio, darparu gwasanaethau a chyfeirio at gymorth ychwanegol yn y trydydd sector. Mae angen data gwell ar effaith y cynllun i asesu ei fanteision ac annog mwy o gyn-filwyr i ddatgelu eu statws.

Mae'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol wedi cyhoeddi Rhaglen Addysg Hyfforddi Genedlaethol yn Lloegr, a fydd yn gweld staff y GIG yn derbyn hyfforddiant pwrpasol i'w helpu i nodi cleifion â chefndiroedd yn y Lluoedd Arfog a darparu'r gefnogaeth gywir. Bydd meddygon teulu, nyrsys, therapyddion a rheolwyr yn gweithio gyda hyfforddwyr rhanbarthol i ymgorffori'r gefnogaeth hon ledled y GIG. Byddai menter debyg yng Nghymru o fudd sylweddol i gyn-filwyr. Mae cynnydd eisoes wedi'i wneud drwy waith AaGIC mewn datblygu hyfforddiant sy'n benodol i gymuned y Lluoedd Arfog yng Nghymru. Mae'n hanfodol bod clinigwyr yn cael yr amser a'r adnoddau i gael mynediad at a chwblhau hyfforddiant, gan y bydd hyn yn helpu i ddileu anghysondebau o ran sut mae cyn-filwyr yn cael mynediad at ofal ac yn cael eu cyfeirio at wasanaeth priodol.

Gallai cyn-filwyr fod yn amharod i hunan-adnabod oherwydd teimladau cymhleth am y term "cyn-filwr" a'u profiadau eu hunain o wasanaethu. Gall hyfforddi staff i ofyn a yw rhywun wedi "gwasanaethu yn Lluoedd Arfog y DU" yn hytrach nag a ydynt yn "gyn-filwr" wella adnabod a sicrhau bod cyn-filwyr yn derbyn y gefnogaeth sydd ei hangen arnynt.

### Mae RBL yn argymell bod yn rhaid i Lywodraeth Cymru:

- Hyrwyddo cyfranogiad yn y Cynllun Achredu Meddygon Teulu sy'n Gyfeillgar i Gyn-filwyr yn weithredol ledled lleoliadau gofal iechyd yng Nghymru i wella cyfranogiad a chysondeb.

- Cyflwyno rhaglen hyfforddi genedlaethol ar gyfer holl staff rheng flaen y GIG yng Nghymru i nodi a chefnogi cleifion â chefndiroedd yn y Lluoedd Arfog, gan gynnwys personél sy'n gwasanaethu a chyn-filwyr, eu teuluoedd a'r gymuned sydd mewn profedigaeth.



© Y Lleng Brydeinig Frenhinol

4. Addysg a Gwella Iechyd Cymru, Achrediad 'Cyfeillgar i Gyn-filwyr' i Bractisau Meddygon Teulu yng Nghymru, ar gael yn Achrediad 'Cyfeillgar i Gyn-filwyr' i Bractisau Meddygon Teulu yng Nghymru - AaGIC
5. Ibid.
6. Cymdeithas Feddygol Prydain (2024), Achubwch ein meddygfeydd, ar gael yn: **Ymgyrch achubwch ein meddygfeydd Cymru**
7. Addysg a Gwella Iechyd Cymru, Achrediad 'Cyfeillgar i Gyn-filwyr' i Bractisau Meddygon Teulu yng Nghymru, ar gael yn **Achrediad 'Cyfeillgar i Gyn-filwyr' i Bractisau Meddygon Teulu yng Nghymru - AaGIC**

## Lles a chyllid: Trin iawndal milwrol yn deg

Mae budd-daliadau lles yn cael eu gweinyddu'n bennaf drwy'r Adran Gwaith a Phensiynau (DWP). Fodd bynnag, mae rhai budd-daliadau lles yn cael eu gweinyddu drwy awdurdodau lleol yng Nghymru, megis Budd-dal Tai, Cymorth y Dreth Gyngor, Taliadau Tai Dewisol, a Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl.

Lle mae sifiliaid yn ceisio iawndal am niwed drwy'r system cyfiawnder sifil, mae cyn-filwyr sydd wedi'u hanafu, neu deuluoedd sydd mewn profedigaeth, o ganlyniad i'w Gwasanaeth, yn cael iawndal gan y Weinyddiaeth Amddiffyn (MOD). Dyfernir iawndal milwrol yn rheolaidd fel swm cyfandaliad, fodd bynnag, telir rhai taliadau iawndal yn fisol, gan arwain at ei drin fel incwm arferol.

Mae triniaeth iawndal milwrol o fewn profion modd budd-daliadau lles yn amrywio; tra bod rhai budd-daliadau'n anwybyddu taliadau iawndal milwrol yn llawn, mae eraill yn ystyried rhai neu'r holl daliadau fel incwm.

Ar 31 Mawrth 2025 yng Nghymru, roedd 5,125 o dderbynwyr iawndal trwy'r Cynllun Pensiwn Rhyfel (WPS)[8]. O dan Gynllun Iawndal y Lluoedd Arfog (AFCS), roedd 2,241 o dderbynwyr dyfarniad anaf/salwch, gan gynnwys 284 o gyn-filwyr yn derbyn Taliad Incwm Gwarantedig[9].

Nododd Cyfrifiad Cymru a Lloegr 2021 fod cyfran y cyn-filwyr anabl[10]yn fwy na'r boblogaeth nad ydynt yn gyn-filwyr: 32.1% o'i gymharu â 19.6% yn y drefn honno[11]. Gellir egluro llawer o'r gwahaniaeth hwn gan broffil oedran hŷn cyn-filwyr o'i gymharu â phobl nad ydynt yn gyn-filwyr - wedi'i haddasu ar gyfer oedran a rhyw i gymharu'n uniongyrchol â'r boblogaeth ehangach, mae cyn-filwyr yn dal i fod ychydig yn fwy tebygol o fod yn anabl na phobl nad ydynt yn gyn-filwyr: 32.1% o'i gymharu â 30% yn y drefn honno. Roedd y gyfran uwch hon o anabledd yn gyson ym mhob band oedran rhwng 30-85[12].

Er na fydd gan bob cyn-filwr anabl anabledd y gellir ei briodoli i Wasanaeth, mae'n rhesymol awgrymu y bydd llawer yn derbyn iawndal milwrol am eu hanabledd, ac yn eu tro byddant yn cael eu heffeithio gan reoliadau profi modd sy'n arwain iddynt golli eu taliadau iawndal.

Mae'r cysyniad o anwybyddu iawndal milwrol yn llwyr mewn profion modd wedi'i dderbyn gan lywodraethau ledled y DU. Mae Credyd Cynhwysol y diystyru taliadau WPS ac AFCS. Ers 2021 mae hyn wedi ymestyn i Bensiynau Analluogi Gwasanaeth (SIPs) a Phensiynau Priodoladwy Gwasanaeth (SAPs). Eto i gyd, nid yw'r cynseiliau hyn yn cael eu hailadrodd ar draws y dirwedd budd-daliadau lles ehangach, gan arwain at rai grwpiau agored i niwed yn aberthu eu hiawndal, fel yn achos cyn-filwyr hŷn sydd wedi'u hanafu sy'n cael trafferth dod â dau ben llinyn ynghyd ac sydd angen cael mynediad at Gredyd Pensiwn.

Mewn llawer o achosion, lle mae atebion wedi'u cyflwyno, maent yn parhau i fod yn dameidiog neu'n dibynnu'n llwyr ar ganllawiau dewisol. Dangosodd ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth, a gyflwynwyd gan RBL i awdurdodau lleol yng Nghymru, mai dim ond hanner (56%) o'r 20 awdurdod a ymatebodd sy'n anwybyddu iawndal milwrol yn llwyr fel incwm ar draws pob un o'r pum budd-dal allweddol a weinyddir yn lleol, gan gynnwys Cymorth y Dreth Gyngor, Budd-dal Tai, Taliad Tai Dewisol, a Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl Bach a Mawr. Mae'r dull anghyson hwn yn peryglu anfantais i aelodau Cymuned y Lluoedd Arfog ac yn tanseilio'r egwyddor o driniaeth deg ac ystyriaeth arbennig i'r rhai sydd wedi rhoi fwyaf trwy eu Gwasanaeth.

### Mae RBL yn argymell bod yn rhaid i Lywodraeth Cymru:

- Sicrhau bod unrhyw brawf modd statudol datganoledig ar gyfer budd-daliadau lles yn anwybyddu iawndal milwrol yn llwyr.
- Adolygu a diwygio canllawiau statudol i sicrhau bod polisïau profi modd awdurdodau lleol yng Nghymru yn anwybyddu taliadau iawndal milwrol yn llwyr ar gyfer budd-daliadau a weinyddir yn lleol.



© Y Lleng Brydeinig Frenhinol

8. Y Weinyddiaeth Amddiffyn (2025), Ystadegau blynyddol Cynllun Pensiwn Rhyfel: 1 Ebrill 2015 i 31 Mawrth 2025 [Tabl 13], ar gael yn: **War_Pension_Scheme_annual_statistics_1_April_2015_to_31_ March_2025.ods**
9. Y Weinyddiaeth Amddiffyn (2025), Ystadegau Cynllun Iawndal y Lluoedd Arfog: blwyddyn ariannol 2024/25 [Tabl 17], ar gael yn: **Armed Forces Compensation Scheme statistics: financial year 2024/25 - GOV.UK**
10. Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2023), Cyn-filwyr lluoedd arfog y DU, iechyd a gofal di-dâl, Cymru a Lloegr: Cyfrifiad 2021, ar gael yn: **UK armed forces veterans, health and unpaid care, England and Wales - Office for National Statistics (ons.gov.uk)**
11. Ibid.
12. Ibid.



© Y Lleng Brydeinig Frenhinol

## Cefnogi plant a theuluoedd: Adnabod plant y Lluoedd Arfog

Tra bod profiadau plant teuluoedd y Lluoedd Arfog yn golygu eu bod yn dangos llawer o gryfderau, gall y ffordd o fyw unigryw gyflwyno heriau penodol. Mae'r rhain yn cynnwys cyfnodau hir o gael eu gwahanu o'u rhiant sy'n gwasanaethu, er enghraifft yn ystod lleoliadau gweithredol, ac adleoliadau mynych o fewn y DU a thramor. Gall hyn achosi tarfu sylweddol ar eu teithiau addysg a rhwydweithiau cymorth a chael effaith ar eu lles. Er mwyn mynd i'r afael â'r anghenion penodol hyn, mae angen cymorth effeithiol wedi'i deilwra. Mae darparu'r cymorth hwn yn dibynnu ar adnabod plant y Lluoedd Arfog yn amserol ar draws lleoliadau addysg.

Mae canllawiau statudol ar Ddyletswydd Cyfamod y Lluoedd Arfog[13] yn nodi y dylai pob awdurdod lleol a chorff llywodraethu ysgolion a gynhelir, fod yn ymwybodol o ba blant yn eu hysgolion, neu sydd ar fin symud i'w hysgol, sy'n blant y Lluoedd Arfog. Mae hyn er mwyn gwella'r ffordd y mae anghenion plant y Lluoedd Arfog yn cael eu diwallu.

Nid yw'r cyfrifiad ysgolion blynyddol ar lefel disgyblion (PLASC), y casgliad data gorfodol ar nifer a nodweddion disgyblion mewn ysgolion a gynhelir yng Nghymru, yn cynnwys maes i adnabod plant y Lluoedd Arfog. Yn ychwanegol, mae'r data a gesglir yn PLASC yn darparu gwybodaeth llawer mwy manwl, er enghraifft, math o anghenion dysgu ychwanegol a chymorth.

Mae RBL yn cydnabod yr ymarfer sylweddol a gynhelir gan Cefnogi Plant Milwyr mewn Addysg yng Nghymru (SSCE Cymru) i annog awdurdodau lleol i adnabod plant y Lluoedd Arfog. Fodd bynnag, nid oes gofyniad gorfodol i ddarparu'r data hyn i SSCE Cymru.

Ym mis Mawrth 2025, darparodd SSCE Cymru giplun o nifer plant y Lluoedd Arfog yng Nghymru[14]. Ymhlith y rhai a ymatebodd, nodwyd 2,028 plentyn y Lluoedd Arfog o fewn yr awdurdodau lleol. Yn seiliedig ar nifer y personél sy'n gwasanaethu a chyn-filwyr sy'n byw yng Nghymru, mae'n ymddangos bod hyn yn tanamcangyfrif union nifer plant y Lluoedd Arfog.

Mewn ymateb i fenter gan Lywodraeth y DU[15] i ddangos ei hymrwymiad i'r Lluoedd Arfog, cynhwysodd yr Adran Addysg yn Lloegr ddangosydd plentyn Lluoedd Arfog yn y Cyfrifiad Ysgolion gorfodol am y tro cyntaf yn 2008. O 2025 ymlaen, bydd Llywodraeth yr Alban yn casglu ac yn cyhoeddi data ar nifer plant y Lluoedd Arfog fel rhan o drefniadau Cyfrifiad Disgyblion blynyddol. Yng Ngogledd Iwerddon, mae'r Adran Addysg yn casglu data ar blant Lluoedd Arfog sydd wedi'u cofrestru felly gyda'u hysgolion.

Mae angen deall anghenion a phrofiadau plant Lluoedd Arfog yn llawn er mwyn sicrhau darparu cefnogaeth effeithiol. Mae diffyg casglu data cynhwysfawr ar blant y Lluoedd Arfog wedi arwain at ddealltwriaeth gyfyngedig o sut mae bywyd y Lluoedd Arfog yn effeithio ar ddeilliannau addysg a lles plant y Lluoedd Arfog, y gallu i gael mynediad at gefnogaeth a pha mor gyffredin yw anghenion ychwanegol.

Mae Siarter Plant y Lluoedd Arfog[16] yn nodi hawliau holl blant Lluoedd Arfog y DU, gan ddatgan bod 'Fy addysg yn fy helpu i fod yn fy hunan gorau nawr ac, yn y dyfodol'. Mae darparu cefnogaeth effeithiol gan Lywodraeth Cymru yn seiliedig ar ddealltwriaeth gywir o nifer, lleoliad ac anghenion unigryw plant y Lluoedd Arfog yng Nghymru.

### Mae RBL yn argymell bod yn rhaid i Lywodraeth Cymru:

- Arddangos ei ymrwymiad i blant y Lluoedd Arfog drwy ychwanegu maes at y Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (PLASC) i alluogi eu hadnabod. Adnabod plant y Lluoedd Arfog yw'r conglfaen wrth liniaru'r heriau unigryw sy'n gysylltiedig â ffordd o fyw y Lluoedd Arfog, megis symudedd uchel a chyfnodau hir heb eu rhiant sy'n gwasanaethu.

13. Y Weinyddiaeth Amddiffyn (2022) Canllawiau Statudol ar Ddyletswydd Cyfamod y Lluoedd Arfog yn Cwmpasu'r Deyrnas Unedig ar gael yn: **Armed_Forces_Covenant_Duty_Statutory_Guidance.pdf**
14. Cefnogi Plant Milwyr mewn Addysg yng Nghymru (2025) Plant Milwyr yng Nghymru ar gael yn: **Data**
15. Llywodraeth y DU (2008) Ymrwymiad y Genedl: Cefnogaeth Drawslywodraethol i'n Lluoedd Arfog, eu Teuluoedd a Chyn-filwyr ar gael yn: **Cm7424.pdf**
16. Forces Children Scotland (2025) Forces Children's Rights Charter, ar gael yn: **Forces Children's Rights Charter - Forces Children Scotland**

# Ôlnodiadau


1. Y Weinyddiaeth Amddiffyn (2011), Cyfamod y Lluoedd Arfog, ar gael yn: **the_armed_forces covenant.pdf**
2. Cyfanswm maint y sampl oedd 2,169 oedolyn. Cynhaliwyd yr arolwg ar-lein rhwng 16–23 Awst 2025. Mae ffigurau wedi'u pwysoli ac yn cynrychioli holl oedolion y DU (18+ oed).
3. Y Weinyddiaeth Amddiffyn (2025), Canlyniadau Arolwg Agwedd Parhaus Lluoedd Arfog Rheolaidd y DU 2025, ar gael yn: **Canlyniadau Arolwg Agwedd Parhaus Lluoedd Arfog Rheolaidd y DU 2025**
4. Addysg a Gwella Iechyd Cymru, Achrediad 'Cyfeillgar i Gyn-filwyr' i Bractisau Meddygon Teulu yng Nghymru, ar gael yn: **Achrediad 'Cyfeillgar i Gyn-filwyr' i Bractisau Meddygon Teulu yng Nghymru - AaGIC**
5. Ibid.
6. Cymdeithas Feddygol Prydain (2024), Achubwch ein meddygfeydd, ar gael yn: **Ymgyrch achubwch ein meddygfeydd Cymru**
7. Addysg a Gwella Iechyd Cymru, Achrediad 'Cyfeillgar i Gyn-filwyr' i Bractisau Meddygon Teulu yng Nghymru, ar gael yn: **Achrediad 'Cyfeillgar i Gyn-filwyr' i Bractisau Meddygon Teulu yng Nghymru - AaGIC**
8. Y Weinyddiaeth Amddiffyn (2025), Ystadegau blynyddol Cynllun Pensiwn Rhyfel: 1 Ebrill 2015 i 31 Mawrth 2025 [Tabl 13], ar gael yn: **War_Pension_ Scheme_annual_statistics_1_April_2015_to_31_March_2025.ods**
9. Y Weinyddiaeth Amddiffyn (2025), Ystadegau Cynllun Iawndal y Lluoedd Arfog: blwyddyn ariannol 2024/25 [Tabl 17], ar gael yn: **Armed Forces Compensation Scheme statistics: financial year 2024/25 - GOV.UK**
10. Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2023), Cyn-filwyr lluoedd arfog y DU, iechyd a gofal di-dâl, Cymru a Lloegr: Cyfrifiad 2021, ar gael yn: **UK armed forces veterans, health and unpaid care, England and Wales - Office for National Statistics (ons.gov.uk)**
11. Ibid.
12. Ibid.
13. Y Weinyddiaeth Amddiffyn (2022) Canllawiau Statudol ar Ddyletswydd Cyfamod y Lluoedd Arfog yn Cwmpasu'r Deyrnas Unedig ar gael yn: **Armed_Forces_Covenant_Duty_Statutory_Guidance.pdf**
14. Cefnogi Plant Milwyr mewn Addysg yng Nghymru (2025) Plant Milwyr yng Nghymru ar gael yn: **Data**
15. Llywodraeth y DU (2008) Ymrwymiad y Genedl: Cefnogaeth Drawslywodraethol i'n Lluoedd Arfog, eu Teuluoedd a Chyn-filwyr ar gael yn: **Cm7424.pdf**
16. Forces Children Scotland (2025) Forces Children's Rights Charter, ar gael yn: **Forces Children's Rights Charter - Forces Children Scotland**

Registered with FUNDRAISING REGULATOR

Rhif elusen gofrestredig: 219279

ROYAL BRITISH LEGION

Y Lleng Brydeinig Frenhinol, 199 Borough High Street, Llundain SE1 1AA
**rbl.org.uk**